# Cyngor Cymuned Llandderfel

Cyfarfod agored i drafod Cynllun Fferm Wynt Gaerwen, nos Wener, Rhagfyr 2il 2022
am 7.00 o'r gloch yn Neuadd Bro Derfel.

## **Agenda**

1. Croesawu ac ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno cynrychiolwyr RWE.
3. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.
4. Cwestiynau gan y Cyhoedd *
5. Diolchiadau a chau'r cyfarfod am 8.00y.h.

*Bethan Jones,* Clerc

*

a) Yn amodol ar reol sefydlog y Cyngor, ni fydd aelod o'r cyhoedd yn siarad am fwy na 5 munud.
b) Bydd person yn codi ei law/llaw wrth ofyn i gael siarad ac yn sefyll wrth siarad (ac eithrio pan mae gan berson anabledd neu os yw'n debyg o ddioddef
anghysur). Gall cadeirydd y cyfarfod benderfynu ar unrhyw adeg caniatáu i
berson barhau i eistedd wrth siarad.
c) Un person yn unig gaiff siarad ar y tro. Os yw mwy nac un person eisiau siarad, bydd cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu ym mha drefn y byddant yn siarad.
ch) Ni chaniateir tynnu lluniau, recordio, darlledu'r cyfarfod mewn unrhyw ffordd heb gael cydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.
d) Ni ddylai unrhyw berson ymddwyn yn dramgwyddus neu'n amhriodol. Os anwybyddir y rheol sefydlog hon, bydd cadeirydd y cyfarfod yn gofyn i'r cyfryw berson(au) bwyllo neu wella eu hymddygiad.
dd) Os yw person(au) yn anwybyddu cais cadeirydd y cyfarfod i bwyllo neu wella eu hymddygiad, gall unrhyw gynghorydd neu gadeirydd y cyfarfod gynnig na ddylid rhoi gwrandawiad i'r person mwyach neu y dylid eu heithrio o'r cyfarfod.
e) Os yw penderfyniad a wneir o dan reol sefydlog (dd) uchod yn cael ei anwybyddu, gall cadeirydd y cyfarfod gymryd camau rhesymol i adfer trefn neu er mwyn symud y cyfarfod ymlaen. Gall hyn gynnwys atal y cyfarfod dros dro neu ei gau.